Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 23/02/2022 i'w hateb ar 02/03/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

Peter Fox *Mynwy*

1 OQ57710 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau'r perygl o lifogydd ar yr A4042 ger pont Llanelen?

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

2 OQ57715 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwella seilwaith trafnidiaeth yn Alun a Glannau Dyfrdwy?

Sian Gwenllian *Arfon*

3 OQ57712 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad am gynllun Arbed 2 yn Arfon?

Natasha Asghar *Dwyrain De Cymru*

4 OQ57685 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi datgarboneiddio trafnidiaeth?

Cefin Campbell *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ57722 **(w)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei roi i gwmnïau yn Sir Benfro i'w helpu i leihau eu hallyriadau carbon?

John Griffiths *Dwyrain Casnewydd*

6 OQ57721 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynghorau lleol i fynd i'r afael â llygredd aer?

Sam Rowlands *Gogledd Cymru*

7 OQ57690 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi am hyrwyddo manteision economaidd cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Ngogledd Cymru?

Tom Giffard *Gorllewin De Cymru*

8 OQ57683 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Dŵr Cymru i liniaru perygl llifogydd yng Ngorllewin De Cymru?

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

9 OQ57703 **(w)**

Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i ddod a phartneriaid at ei gilydd i wella rheoli maetholion yn afonydd Cymru?

Laura Anne Jones *Dwyrain De Cymru*

10 OQ57694 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i leihau llygredd afonydd yn Nwyrain De Cymru?

Rhianon Passmore *Islwyn*

11 OQ57720 **(e)**

Pa fentrau y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â hwy er mwyn cynnwys pobl Islwyn mewn sgwrs genedlaethol am natur?

Russell George *Sir Drefaldwyn*

12 OQ57693 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau yng nghanolbarth Cymru yn dilyn llifogydd o ganlyniad i'r stormydd diweddar?

GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

Delyth Jewell *Dwyrain De Cymru*

1 OQ57717 **(e)**

Pa gynnydd y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud tuag at gyflawni'r targedau a nodir yn Cymraeg 2050?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

2 OQ57697 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael i ddatrys yr anghydfod pensiwn mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru?

Sarah Murphy *Pen-y-Bont ar Ogwr*

3 OQ57698 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gasglu a defnyddio data biometrig disgyblion mewn ysgolion?

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

4 OQ57716 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi myfyrwyr addysg uwch sy'n dymuno astudio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?

Vikki Howells *Cwm Cynon*

5 OQ57713 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella mynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg?

Peter Fox *Mynwy*

6 OQ57711 **(e)**

Pa gyngor a chymorth y mae Llywodraeth Cymru'n eu darparu i ysgolion i sicrhau bod cyfranogiad mewn chwaraeon ar gael i bob myfyriwr?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

7 OQ57682 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen ysgolion a cholegau'r 21ain ganrif yn Abertawe?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

8 OQ57689 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn ag argaeledd deunydd adolygu ar gyfer y prawf gyrru theori yn Gymraeg?

Mark Isherwood *Gogledd Cymru*

9 OQ57687 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?

Jane Dodds *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OQ57705 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y cod trefniadaeth ysgolion ar ysgolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

Sioned Williams *Gorllewin De Cymru*

11 OQ57706 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r system cyllid myfyrwyr i gefnogi myfyrwyr a graddedigion yn ystod yr argyfwng costau byw?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

12 OQ57723 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi iechyd a lles mewn ysgolion?